



# Gwerthusiad o Bartneriaeth Sgiliaith/ CYDAG



## Ymchwil

Dogfen ymchwil Rhif: 045/2009  
Dyddiad cyhoeddi: Medi 2009

# Gwerthusiad o Bartneriaeth Sgiliaith/ CYDAG

<b>Cynulleidfa</b>	Cyrff cenedlaethol a lleol yng Nghymru sy'n ymwneud ag addysg, hyfforddiant a sgiliau yng Nghymru.
<b>Trosolwg</b>	Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r prif gasgliadau, perfformiad ac effaith sy'n deillio o'r gwerthusiad o bartneriaeth Sgiliaith/CYDAG.
<b>Camau i'w cymryd</b>	Dim - er gwybodaeth.
<b>Rhagor o wybodaeth</b>	Julie Owens Uwch-ddadansoddwr Ymchwil Y Gangen Ymchwil a Gwerthuso Yr Is-adran Rheoli Gwybodaeth APADGOS Llywodraeth Cynulliad Cymru Uned 6 Parc Busnes Llanelwy Llanelwy Sir Ddinbych LL17 0LJ Ffôn: 01745 538540 Ffacs: 01745 538501 E-bost: <a href="mailto:research2@wales.gsi.gov.uk">research2@wales.gsi.gov.uk</a>
<b>Copiau ychwanegol</b>	Mae'r rhain ar gael ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru <a href="http://wales.gov.uk/topics/educationandskills">http://wales.gov.uk/topics/educationandskills</a>
<b>Dogfennau cysylltiedig</b>	Dim

## CYNNWYS

1	CYFLWYNIAD I'R GWERTHUSIAD.....	3
1.1	Diben yr adroddiad .....	3
1.2	Cwmpas ac amcanion y gwerthusiad .....	3
1.3	Trosolwg o'r fethodoleg .....	4
1.4	Cydnabyddiaeth .....	4
1.5	Cefndir partneriaeth Sgiliaith/CYDAG .....	5
1.6	Y cytundeb presennol.....	7
2	HYFFORDDIANT DWYIEITHRWYDD MEWN YSGOLION A CHOLEGAU.....	9
2.1	Hyfforddiant methodoleg dros dridiau .....	9
2.2	Sesiynau hyfforddi methodoleg fel rhan o'r Cynllun Sabothol Cenedlaethol .....	13
2.3	Darparu staff mentora.....	15
2.4	Cefnogi gwaith yr LLUK o ddatblygu safonau dysgu ac addysgu .....	18
2.5	Darparu sesiynau arfer da a hyfforddiant i staff.....	18
3	HYFFORDDIANT I DDATBLYGU DWYIEITHRWYDD YM MAES DYSGU SEILIEDIG AR WAITH.....	21
3.1	Cyflwyniad a throsolwg .....	21
3.2	Yr heriau a wynebwyd.....	21
3.3	Casgliadau.....	23
4	ACHREDU A HYRWYDDO'R UNEDAU IAITH AR WAITH .....	24
4.1	Cefndir.....	24
4.2	Diwallu anghenion dysgwyr.....	24
4.3	Ymateb gan golegau.....	25
4.4	Casgliadau.....	25
5	CEFNOGAETH WRTH NODI ANGHENION A RHWYDWEITHIAU DWYIEITHOG A CHYFRWNG CYMRAEG.....	27
5.1	Cefndir a rhwymedigaethau cytundebol .....	27
5.2	Dull o weithio diwygiedig .....	28
6	SYLWADAU AC ARGYMHELLION I GLOI.....	30
6.1	Amrywiaeth y rolau a'r swyddogaethau .....	30
6.2	Crynodeb o berfformiad yn erbyn yr allbynnau a fwriadwyd .....	30
6.3	Cryfderau a gwendidau model 'Sgiliaith' .....	34
6.4	Cydbwysedd y bartneriaeth.....	36
6.5	Effeithiau ychwanegol, anfwriadol y bartneriaeth .....	36
6.6	Argymhellion.....	37

# 1 CYFLWYNIAD I'R GWERTHUSIAD

---

## 1.1 Diben yr adroddiad

---

1.1.1 Comisiynwyd Arad Consulting gan Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Llywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Rhagfyr 2008 i werthuso partneriaeth Sgiliaith/CYDAG. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r canfyddiadau allweddol a ddaeth i'r amlwg yn ystod y gwerthusiad, gan dynnu ar y gwaith ymchwil a'r gwaith maes a wnaed gan y tîm gwerthuso. Mae'n ystyried perfformiad ac effaith partneriaeth Sgiliaith/CYDAG mewn perthynas â'r amcanion a nodwyd yn y cytundeb rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru â'r bartneriaeth.

## 1.2 Cwmpas ac amcanion y gwerthusiad

---

1.2.1 Yn dilyn cyfarfod cychwynnol rhwng tîm Arad a'r Cleient ym mis Rhagfyr 2008, cytunwyd na ddylai'r gwerthusiad ddyblygu astudiaethau gwerthuso a gwaith ymchwil cysylltiedig, ond yn hytrach, dylai ganolbwyntio ar nodi cyfraniad gweithgareddau'r bartneriaeth i raglenni a mentrau perthnasol. Penderfynwyd canolbwyntio ar y canlynol:

1.2.2 Nod cyffredinol y gwerthusiad, sef:

- Asesu effaith ac effeithiolrwydd partneriaeth Sgiliaith/CYDAG wrth lwyddo i feithrin gallu i gyflwyno cyfleoedd dysgu dwyieithog a chyfrwng Cymraeg.

1.2.3 Yr amcanion penodol, sef:

- I ba raddau y mae'r bartneriaeth wedi cyflwyno'r allbynnau a restrwyd yn y cytundeb rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Sgiliaith/CYDAG?
- Sut mae partneriaeth Sgiliaith/CYDAG yn cyfrannu at amcanion strategol mentrau allweddol sy'n gysylltiedig ag a) hyfforddiant dwyieithrwydd; b) dysgu sy'n seiliedig ar waith; c) hyrwyddo *laith ar Waith*; d) datblygu adnoddau?

- Pa gyfraniad a wnaed gan bartneriaeth Sgiliaith/CYDAG at feithrin gallu hirdymor yn y sector?
- Beth yw cryfderau allweddol partneriaeth Sgiliaith/CYDAG?
- A oes unrhyw feysydd eraill o ddatblygu dwyieithog y gallai'r bartneriaeth gyfrannu atynt?
- Dyrannu cyllid: sut y dyrennir y cyllid sy'n gysylltiedig â'r cytundeb?

### 1.3 Trosolwg o'r fethodoleg

---

1.3.1 Gan ddilyn y canllawiau yn y gwahoddiad i dendro a chyfarfod cychwynnol y prosiect, seiliwyd methodoleg y gwerthusiad ar gyfuniad o ymchwil ddesg a gwaith maes, gan gynnwys y tasgau allweddol canlynol:

- i. Adolygu dogfennaeth a systemau mewnol partneriaeth Sgiliaith/CYDAG, gan gynnwys dadansoddi'r data monitro a gasglwyd gan gyfranogwyr amrywiol ar gyrsiau hyfforddiant.
- ii. Cyfweiliadau ag unigolion sydd wedi cyfrannu at bedair elfen rhaglen waith y bartneriaeth.
- iii. Tystiolaeth sylfaenol atodol, a gafwyd oddi wrth y cyfranogwyr drwy gyfrwng holiaduron.
- iv. Cyfweiliadau â staff y rhaglen (gan gynnwys staff Sgiliaith/CYDAG, swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru, Coleg Meirion-Dwyfor a Chanolfan Bedwyr).
- v. Cyfweiliadau â sefydliadau partner a chyflogwyr y cyfranogwyr (gan gynnwys ysgolion, colegau, darparwyr dysgu seiliedig ar waith).

### 1.4 Cydnabyddiaeth

---

1.4.1 Carwn ddiolch i bawb a gyfrannodd amser ac ymdrech i'r gwerthusiad hwn o bartneriaeth Sgiliaith/CYDAG. Rydym yn gwerthfawrogi pob cymorth - yn gyfraniadau ysgrifenedig neu wrth gymryd rhan mewn cyfweiliadau â'r tîm

gwerthuso - a bu'r corff hwn o dystiolaeth sylweddol a defnyddiol yn sail i'r adroddiad a'i ganfyddiadau.

## 1.5 Cefndir partneriaeth Sgiliaith/CYDAG

---

- 1.5.1 Mae Canolfan Sgiliaith yn adran o fewn Coleg Meirion Dwyfor, a'i brif amcan yw cynnal gwaith prosiect i hyrwyddo dwyieithrwydd ac addysg cyfrwng Cymraeg mewn addysg alwedigaethol ôl-16 yng Nghymru. Fel hyn y diffinia Sgiliaith ei hun ei amcan fel sefydliad:

*'cynnig cyngor ymarferol ar arfer da, hyfforddiant staff, ac adnoddau, gyda'r nod o gynyddu sgiliau a phrofiadau dwyieithog myfyrwyr.'*

- 1.5.2 Mae CYDAG (Cymdeithas Ysgolion dros Addysg Gymraeg) yn gweithio gydag ysgolion cynradd ac uwchradd i hyrwyddo a datblygu pob agwedd ar addysg ddwyieithog. Gwna hyn drwy hyrwyddo cydweithredu, drwy drefnu gweithgareddau i gefnogi datblygiad proffesiynol, drwy fod yn gyfrwng ar gyfer trafod addysg ddwyieithog a thrwy gyfathrebu dyheadau a phryderon ei haelodau i'r sefydliadau a'r awdurdodau cyhoeddus perthnasol.
- 1.5.3 Rhydd partneriaeth Sgiliaith/CYDAG wasanaeth i ysgolion, Sefydliadau Addysg Bellach (FEIs) a darparwyr hyfforddiant preifat, a thrwy hynny, mae'n sicrhau ei fod yn cynnwys y sector dwyieithog a chyfrwng Cymraeg yn ei gyfanrwydd.
- 1.5.4 Gyda'i gilydd, datblygwyd partneriaeth Sgiliaith/CYDAG (a elwir hefyd 'y bartneriaeth' yn yr adroddiad hwn) i gynnal gwasanaeth cefnogol canolog i'r sector ôl-16 wrth ddatblygu darpariaeth ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg. Mae'r gwasanaeth canolog hwn yn cynnwys Cymru benbaladr ac yn cefnogi darpariaeth ôl-16 o ran hyfforddiant a mentora mewn ysgolion, colegau a lleoliadau dysgu seiliedig ar waith er mwyn datblygu dwyieithrwydd, trefniadau achredu a hyrwyddo cymhwysedd galwedigaethol cyffredinol i gydnabod sgiliau dwyieithog dysgwyr, yn ogystal â darparu cefnogaeth o ran nodi rhwydweithiau ac anghenion adnoddau cyfrwng Cymraeg.
- 1.5.5 Mae strwythur a chylch gwaith presennol y bartneriaeth wedi ffurfio dros amser, gan adeiladu ar gyfnodau dilynol o weithgarwch. Dengys Tabl 1, isod, amryw

gyfnodau bywyd partneriaeth Sgiliaith/CYDAG – o’i ddechreuad drwy ei hesblygiad.

Tabl 1: Esblygiad partneriaeth Sgiliaith/CYDAG

1997-2001	<p><b>Prosiect Allweddiaith</b></p> <p>Wedi’i reoli gan Coleg Meirion Dwyfor a’i ariannu gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Cefnogi datblygiad yn y chwe choleg â’r lefelau uchaf o ddarpariaeth ddwyieithog.</p>
2001	<p><b>Sefydlu Canolfan Sgiliaith</b></p> <p>Wedi’i hariannu gan <i>fforwm</i>, ELWa a Bwrdd yr Iaith Gymraeg, sefydlwyd Sgiliaith yn ffurfiol o fewn Coleg Meirion Dwyfor i hyrwyddo addysg ddwyieithog ôl-16, gan adeiladu ar waith prosiect Allweddiaith. Roedd Sgiliaith yn adrodd i Fwrdd <i>fforwm</i>.</p>
2003-2005	<p><b>Gweithgarwch Sgiliaith yn cael ei ariannu gan y Gronfa Her Dysgu</b></p> <p>Sefydlwyd y Gronfa Her Dysgu (LCF) i fynd i’r afael â’r rhwystrau i gynyddu darpariaeth ddwyieithog yn y sector ôl-16 - rhwystrau y nodwyd gan ELWa eu bod yn gysylltiedig â seilwaith, capasiti ac adnoddau.</p> <p>Dyma a bennodd pedwar llinyn y gwaithgarwch a nodwyd yng nghylch gwaith Sgiliaith: i) cefnogi paneli adnoddau; ii) gwaith datblygu gyda cholegau (cyngor a chanllawiau); iii) gweithio ar CGCau; iv) hyfforddiant mewn colegau ac ysgolion. Yn ystod y cyfnod hwn, nod y gweithgarwch oedd cefnogi ysgolion a cholegau ledled Cymru.</p> <p>Roedd CYDAG yn bartneriaid o dan yr LCF fel aelodau o’r Grŵp Llywio, a oedd hefyd yn cynnwys <i>fforwm</i>, Coleg Meirion-Dwyfor ac ELWa.</p>
2005-2007	<p><b>Partneriaeth Sgiliaith/CYDAG</b></p> <p>O dan gytundeb rhwng APADGOS a Choleg Meirion-Dwyfor, rhoddwyd y dasg i bartneriaeth Sgiliaith/CYDAG o ddarparu gwasanaeth cefnogol canolog Cymru-gyfan a oedd yn cynnwys hyfforddiant a rhwydweithio, nodi anghenion adnoddau, cefnogi asesu dwyieithog ar lefel CGC a rhannu arferion da ar draws sectorau. Roedd y bartneriaeth ffurfiol â CYDAG yn fodd i</p>

	ddarparu cefnogaeth ychwanegol i athrawon mewn perthynas â datblygiadau'r cwricwlwm, megis Bagloriaeth Cymru a Llwybrau Dysgu 14-19.
2007-2009	<b>Partneriaeth Sgiliaith/CYDAG</b> Y cytundeb presennol a ffocws y gwerthusiad hwn (gweler adran 1.3 isod).

## 1.6 Y cytundeb presennol

1.6.1 Fel y nodwyd uchod, mae gwaith y bartneriaeth wedi datblygu ymhellach, ac wedi adeiladu ar weithgarwch cynharach a arweiniwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg a *fforwm*. Nodwyd rhwymedigaethau'r bartneriaeth yn fanwl yn y cytundeb a weinyddwyd gan Uned Datblygu'r Iaith Gymraeg o fewn APADGOS.

1.6.2 Rhwng mis Medi 2007 a mis Awst 2009, cafodd Sgiliaith/CYDAG gytundeb i gyflwyno'r canlynol:

- Penodi 1 swyddog amser-llawn neu gyfwerth i gefnogi'r cyfarwyddwr presennol i roi allbynnau'r prosiect ar waith.

### Hyfforddiant dwyieithrwydd mewn ysgolion a cholegau

- Darparu hyfforddiant methodoleg dros dridiau i 60 staff dros gyfnod o 2 flynedd academiaidd, erbyn Gorffennaf 2009.
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu safonau dysgu ac addysgu newydd gan LLUK.
- Cefnogi Canolfan Bedwyr mewn sesiynau hyfforddiant methodoleg ar y Cynllun Sabothol Cenedlaethol.
- Mentora 12 aelod o staff dros gyfnod o un flwyddyn academiaidd (2008-09).
- Darparu sesiynau hyfforddi ac arfer da i staff.

### Hyfforddiant i ddatblygu dwyieithrwydd mewn dysgu seiliedig ar waith

- Peilota strwythur canolog, i ddatblygu dwyieithrwydd ymgeiswyr a darparwyr dysgu seiliedig ar waith.

### Achredu a hyrwyddo'r unedau Iaith ar Waith

- Marchnata'r unedau *Iaith ar Waith* a sefydlu carfannau o fyfyrwyr i'w cynnal.
- Datblygu ac achredu unedau Lefel 3 newydd gan gynnwys deunyddiau ategol.
- Darparu cefnogaeth a hyfforddiant drwy gyfrwng y tiwtoriaid sy'n addysgu ac yn asesu'r unedau.



- Chwilio am gorff achredu i ffurfioli'r broses o achredu'r unedau.
- Datblygu, achredu a pheilota unedau cyfatebol ar gyfer myfyrwyr ail-iaith.

### **Cefnogaeth wrth nodi rhwydweithiau ac anghenion cyfrwng-Cymraeg**

- Dethol aelodau ar gyfer y paneli adnoddau newydd (paneli pwnc-penodol sy'n cynnwys ymarferwyr o golegau ac ysgolion a dynnwyd at ei gilydd gan Sgiliaith i drafod anghenion, blaenoriaethau a chyfleoedd wrth ddatblygu adnoddau dwyieithog).
- Cynhyrchu adroddiadau unigol ar gyfer pob maes blaenoriaeth yn dilyn y paneli pwnc.
- Darparu hyfforddiant wrth ddefnyddio cyfleusterau Rhannu ar gyfer 50 o ddarparwyr (sefydlwyd y prosiect Rhannu â'r nod o alluogi athrawon a darlithwyr ar gyrsiau ôl-16 i rannu adnoddau dwyieithog a chyfrwng Cymraeg mewn pynciau galwedigaethol. Caiff ei ariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'i gynnal gan Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Cymru).
- Sicrhau y bydd deunyddiau ychwanegol ar gael ar wefan Rhannu.

1.6.3 Cafodd y taliadau ar gyfer y gwasanaethau a'r gweithgareddau a restrir uchod eu gwneud dros gyfnod o dair blynedd ariannol, fel a ddengys isod:

<b>Blwyddyn ariannol yn gorffen</b>	<b>£</b>
31 Mawrth 2008	69,281
31 Mawrth 2009	143,834
31 Mawrth 2010	60,377
<b>CYFANSWM</b>	<b>273,492</b>

## 2 HYFFORDDIANT DWYIEITHRWYDD MEWN YSGOLION A CHOLEGAU

---

### 2.1 Hyfforddiant methodoleg dros dridiau

---

2.1.1 Mae'r hyfforddiant methodoleg dros dridiau yn rhoi'r cyfle i athrawon ysgol a darlithwyr coleg sydd eisoes yn hyderus yn eu sgiliau iaith Gymraeg i ddatblygu technegau dysgu dwyieithog.

#### Cyflwyno

2.1.2 Fel arfer, caiff yr hyfforddiant ei gyflwyno dros ddeuddydd yn olynol yn ytsod yr wythnos gyntaf, a'i ddilyn gan ddiwrnod hyfforddi arall yr wythnos ganlynol. Yn ystod y cwrs, cynigir cyflwyniadau i'r cyfranogwyr yn dangos sut i gyflwyno gwersi yn ddwyieithog, a'u helpu i ddatblygu adnoddau dysgu dwyieithog. Gofynnir i gyfranogwyr hefyd gyflwyno gwers yn ddwyieithog i'r hyfforddwyr, sy'n asesu'r dull cyflwyno, ac yn cynnig adborth ar lafar ar y diwrnod, yn ogystal ag adborth ysgrifenedig manylach yn ddiweddarach.

2.1.3 Roedd y dystiolaeth sylfaenol a gasglwyd drwy gyfrwng cyfweiliadau â'r rhai a dderbyniodd yr hyfforddiant yn gadarnhaol iawn a chafwyd enghreifftiau o wersi sydd bellach yn cael eu cyflwyno'n llwyddiannus yn ddwyieithog o ganlyniad uniongyrchol i'r hyfforddiant a gafwyd.

*'Byddaf yn defnyddio'r wybodaeth a gafwyd ar y cwrs i baratoi deunyddiau i'w dosbarthu i'm myfyrwyr.'*

Un o gyfranogwyr yr hyfforddiant methodoleg yn 2008

2.1.4 Mewn ymgynghoriadau â rhai o gyfranogwyr yr hyfforddiant methodoleg, cafwyd adborth hynod gadarnhaol yn ymwneud ag ansawdd yr hyfforddiant yn ogystal â'i berthnasedd i'w hanghenion addysgu dwyieithog. Cytunodd yr holl gyfranogwyr yr ymgynghorwyd â hwy yn ystod y gwaith maes fod yr hyfforddiant wedi'i gyflwyno'n glir ac mewn ffordd broffesiynol. Ystyriwyd hefyd bod y cyfarwyddyd a'r adborth a roddwyd i'r cyfranogwyr yn ystod yr hyfforddiant yn fuddiol ac yn adeiladol.

- 2.1.5 Roedd y ffurflenni monitro, a gasglwyd gan y bartneriaeth yn dilyn yr hyfforddiant, yn cynnwys adborth a sylwadau cadarnhaol tebyg. Mynegwyd barn bod y ffocws ar ddefnyddio sgiliau ymarferol drwy'r meicro-sesiynau addysgu y mae'n rhaid i'r cyfranogwyr eu cyflwyno yn arbennig o werthfawr.
- 2.1.6 Er bod mwyafrif helaeth yr ymatebion yn gadarnhaol, mynegwyd rhai pryderon hefyd. Er enghraifft, roedd un o'r cyfranogwyr o'r farn y gellid treulio llai o amser yn datblygu adnoddau dwyieithog ar ail ddydd yr hyfforddiant er mwyn rhoi mwy o bwyslais ar yr ymarferion yn ymwneud â thechnegau cyflwyno. Roedd eraill o'r farn nad oedd tridiau yn ddigon o amser i drafod yr holl bwyntiau angenrheidiol.
- 2.1.7 Mae'r pwyntiau hyn yn adlewyrchu anghenion gwahanol ac amrywiol yr ymarferwyr sy'n cymryd rhan yn yr hyfforddiant yn hytrach nag ansawdd a strwythur cyffredinol y broses o gyflwyno'r hyfforddiant. Yn wir, soniwyd mewn ymgynghoriadau bod yr hyfforddiant wedi'i deilwra ddigon i'w galluogi i ddatblygu cynlluniau gwersi dwyieithog a oedd yn diwallu eu hanghenion penodol hwy. O ganlyniad, dyweddodd y rhan fwyaf eu bod yn gallu defnyddio'r hyn a ddysgasant yn yr hyfforddiant yn syth ar ôl y cwrs.
- 2.1.8 Yn ystod y gwerthusiad hwn, cafwyd enghreifftiau o ddulliau addysg dwyieithog yn cael eu hymgorffori mewn cynlluniau gwersi o ganlyniad uniongyrchol i hyfforddiant Sgiliaith. Mewn un ysgol, roedd yr angen am ddarpariaeth ddwyieithog wedi'i gyflwyno fel rhan o'u polisi i gyfuno gwersi ac adnoddau addysgu mewn rhai pynciau gyda sefydliadau cyfagos. Roedd hyn wedi cymell yr ysgol i gymryd rhan yn yr hyfforddiant dros dridiau a'r canlyniad oedd darparu gwersi dwyieithog yn y meysydd pwnc allweddol a nodwyd. Croesawyd y gwersi hyn gan fyfyrwyr a nodwyd bod myfyrwyr wedi gofyn i'r gwersi dwyieithog ddychwelyd ar ôl cyfnod byr o fynd yn ôl i'r drefn o wersi uniaith Saesneg.
- 2.1.9 Roedd rhai yn siomedig nad oedd yr asesu a'r gefnogaeth i athrawon yn parhau ar ôl y tridiau o hyfforddiant. Roedd yr ymgynghoreion hyn yn teimlo y byddai cwrs dilynol byr, undydd o bosibl, yn ystod y 12 mis cyntaf ar ôl yr hyfforddiant yn fuddiol iawn. Yn eu barn nhw, byddai hyn yn cynnig cyfle i loywi eu sgiliau ond hefyd rhoi hwb o frwdfrydedd i rai unigolion nad oedd eto wedi cael cyfle i gyflwyno addysgu dwyieithog yn eu hysgol neu goleg.

- 2.1.10 Byddai asesiad parhaus hefyd yn sicrhau'r rheiny sydd wedi rhoi'r hyfforddiant ar waith eu bod yn dal i gyflwyno addysg ddwyieithog o safon uchel. Serch hyn, dengys tystiolaeth anecdotaidd o'r gwerthusiad hwn fod yr hyfforddiant methodoleg yn cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth addysgu dwyieithog mewn ysgolion a cholegau.
- 2.1.11 Mae maint yr effaith a geir, fodd bynnag, yn dibynnu ar ffactorau sydd y tu allan i reolaeth Sgiliaith. Er enghraifft, p'un a yw'r staff addysgu mwyaf priodol o'r sefydliadau unigol yn cymryd rhan yn yr hyfforddiant. Mae hyn yn seiliedig ar benderfyniadau uwch reolwyr yr ysgolion a'r colegau, a fydd yn ei dro yn cael eu dylanwadu gan frwdfrydedd ac awydd ar y lefel hon i gynnwys addysgu dwyieithog o fewn arferion addysgu ehangach y sefydliad dan sylw.
- 2.1.12 Roedd un unigolyn o'r farn fod yr hyfforddiant methodoleg yn gweithio'n dda ac yn cael effaith gadarnhaol, ond serch hyn megis dechrau oedd hynny gan fod y rhan fwyaf o'r adnoddau dysgu ar gael yn Saesneg yn unig. Dengys yr enghreifftiau hyn ba mor heriol yw'r amgylchedd y mae Sgiliaith yn gweithredu ynddo.

### **Marchnata**

- 2.1.13 Mae'r gwaith o farchnata'r hyfforddiant methodoleg dros dridiau wedi cynyddu yn ystod cyfnod y cytundeb. Roedd y gwaith marchnata i ddechrau yn seiliedig ar ddosbarthu taflenni wedi'u targedu at golegau yn unig; ond yn fwy diweddar, mae Sgiliaith wedi bod yn gwahodd ysgolion a cholegau sydd yn awyddus i ddysgu rhagor am yr hyfforddiant hwn i gymryd rhan.
- 2.1.14 Mae CYDAG, drwy ei rwydwaith o ysgolion, hefyd wedi chwarae rhan bwysig wrth farchnata'r hyfforddiant yn ehangach ac wrth drefnu sesiynau mewn ysgolion. Nododd un ysgol ei bod wedi dod yn ymwybodol o'r hyfforddiant drwy gyfrwng cynhadledd a drefnwyd gan CYDAG. Fodd bynnag, roedd hyn yn ystod mis Mehefin 2008 ac felly nid oedd modd cynnal yr hyfforddiant y flwyddyn academaidd honno a bu'n rhaid ei ohirio tan fis Medi 2009. Mae hyn yn pwysleisio'r angen i roi digon o amser i sefydliadau er mwyn iddynt allu cynllunio ar gyfer yr hyfforddiant.

2.1.15 Mae llwyddiant y marchnata hyd yma yn amlwg. Mae'r hyfforddiant eisoes wedi'i ddarparu i ysgolion a cholegau yn Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Powys, Gwynedd a Cheredigion. Bydd deall pa agweddau ar y strategaeth farchnata sy'n gweithio'n dda yn ffactor pwysig wrth helpu i lywio cyfeiriad cynlluniau marchnata'r dyfodol. Er mwyn datblygu'r ddealltwriaeth hon, dylai Sgiliaith ystyried casglu adborth gan gyfranogwyr yr hyfforddiant methodoleg a'u huwch reolwyr i adolygu sut y daethant i wybod am y cyfle hyfforddi hwn yn y lle cyntaf.

### **Materion i'w hystyried yn y dyfodol**

2.1.16 Mae'r hyfforddiant methodoleg dros dridiau yn seiliedig yn bennaf ar arbenigedd llond llaw o unigolion. Er bod yr arbenigedd hwn yn seiliedig ar wybodaeth a phrofiad sylweddol iawn, codwyd pryderon ynghylch lled y profiad hwn. Er na chodwyd unrhyw bryderon am ansawdd y gwaith cyflwyno na chynnwys yr hyfforddiant, nododd ambell un nad oedd y broses hyfforddi wedi'i herio na'i hymchwilio'n ehangach gan arbenigedd academiaidd ehangach. Ni aethpwyd ar ôl cyfleoedd i gadarnhau neu fireinio arferion cyfredol.

2.1.17 Mae'n bosibl felly bod angen rhagor o waith ymchwil i ddatblygu cysylltiadau cryfach â sefydliadau addysg uwch er mwyn cael seinfwrdd i brofi rhai o'u harferion hyfforddi cyfredol, ac alinio'u hunain â'r arferion da a ddatblygwyd gan arbenigwyr dwyieithrwydd mewn Sefydliadau Addysg Uwch (SAU).

2.1.18 Wrth i gwricwla lleol 14-19 gael eu cwblhau a'u rhoi ar waith, awgrymwyd ei bod yn debygol y bydd cynnydd yng ngraddfa'r ddarpariaeth ddwyieithog a gynllunnir ac a ddatblygir. Mae'n bosibl y bydd y galw am ymarferwyr sydd â sgiliau i gyflwyno'n ddwyieithog yn cynyddu yn unol â hynny. Gallai'r model hyfforddiant a ddatblygwyd gan Sgiliaith fod yn fodel wedi'i brofi y gellid ei gyflwyno'n ehangach. Mae nifer o ymgynghoreion ar lefel strategol wedi sôn am y rôl bosibl y gallai Sgiliaith ei chwarae wrth gynghori rhwydweithiau lleol a chyfrannu at y gwaith o weithredu'r agenda 14-19.

2.1.19 Yn ogystal, mae'r rhwydweithiau 14 – 19 yn cynnig cyfle i Sgiliaith hyrwyddo'r cyfleoedd hyfforddi y mae'n eu cynnig. Fodd bynnag, os yw lefel llwyddiant y

marchnata yn parhau i gynyddu'r galw am yr hyfforddiant methodoleg, bydd yn rhaid ystyried gallu Sgiliaith i ddiwallu'r galw hwn.

## 2.2 Sesiynau hyfforddi methodoleg fel rhan o'r Cynllun Sabothol Cenedlaethol

---

### Effaith hyfforddiant methodoleg Sgiliaith

- 2.2.1 Disgrifiwyd y rôl y mae Sgiliaith yn ei chwarae yn y Cynllun Sabothol Cenedlaethol fel 'rôl gefnogol', gan ddarparu nifer o sesiynau ar ddulliau ac arferion addysgu dwyieithog er mwyn cefnogi'r hyfforddiant iaith a ddatblygwyd gan Brifysgol Cymru, Bangor a Phrifysgol Caerdydd. Ym marn rheolwyr y rhaglenni, mae'r hyfforddiant methodoleg a ddarperir gan Sgiliaith yn cynnig gweithgarwch ategol pwysig sy'n ychwanegu gwerth at y cynllun.
- 2.2.2 Mae'r dystiolaeth a gasglwyd oddi wrth ystod o gyfranwyr - ar lefel strategol, partneriaid darparu ac unigolion sydd wedi cwblhau'r Cynllun Sabothol - yn ategu hyn. Mae cyfraniad Sgiliaith yn rhoi ffocws ymarferol i'r cynllun, sy'n annog ymarferwyr i ystyried sut byddent yn defnyddio eu sgiliau iaith newydd yn y dosbarth. Nod yr hyfforddiant yw magu hyder y cyfranogwyr wrth ddefnyddio methodoleg ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg, ac ystyrir ei fod yn rhan ganolog o'r rhaglen.

*'Roedd yr hyfforddiant a gyflwynwyd gan Sgiliaith - yn enwedig y sesiwn meicro-addysgu - yn rhan hanfodol o'r Cynllun - llwyddodd i esgor ar drafodaeth agored a defnyddiol am ddulliau addysgu dwyieithog.'*

Cyfranogwr yn y Cynllun Sabothol

*'Athro mathemateg ydw i ond aeth y trafodaethau i'r afael â dulliau o addysgu dwyieithog ar draws ystod eang o feysydd pwnc. Roedd hyn yn arbennig o werthfawr a gwnaeth i ni feddwl am ddulliau addysgu mewn gwahanol gyd-destunau a lleoliadau.'*

Cyn-gyfranogwr yn y Cynllun Sabothol

- 2.2.3 Rhoddwyd gwerth penodol ar gael cyfle i ddatblygu gwersi dwyieithog a fyddai'n cael eu defnyddio mewn amgylchedd dysgu go iawn. Nodwyd hefyd gan rai o gyn-

gyfranogwyr yn y Cynllun Sabothol fod yr adborth a gafwyd yn uniongyrchol gan Sgiliaith yn 'gefnogol ac yn adeiladol', gan alluogi'r rheiny a oedd ar y cwrs i ddatblygu deunyddiau addysgu a dulliau 'y gellid eu defnyddio mewn sefyllfaoedd go iawn'.

*'Cyfraniad Sgiliaith a lwyddodd i gyflwyno'r hyn yr oedd ei angen fwyaf arnaf o'r Cynllun Sabothol – bu'n gymorth i roi hwb i fy hyder er mwyn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Rwyf bellach yn addysgu dosbarthiadau yn ddwyieithog, gan gynnwys disgyblion o ddwy ysgol Gymraeg.'*

Cyn-gyfranogwr yn y Cynllun Sabothol.

2.2.4 Nododd cyfranogwyr eraill fod yr hyfforddiant a ddarparwyd gan Sgiliaith wedi'u galluogi i reoli amgylchedd dosbarth dwyieithog yn effeithiol. Mewn rhai achosion, mae Sgiliaith wedi trefnu sesiynau hyfforddiant pellach gyda chyn-gyfranogwyr y Cynllun Sabothol.

2.2.5 Yn ôl tystiolaeth a gyflwynwyd yn ystod y gwerthusiad hwn, mae'n glir bod parch mawr i hyfforddwyr Sgiliaith a bod gwerth mawr yn cael ei roi ar eu harbenigedd. Mae'r profiad hwn yn helpu i sicrhau cyfranogwyr ac yn rhoi hyder iddynt fod unrhyw ddeunyddiau neu ddulliau y maent yn eu datblygu yn ystod y cynllun yn mynd i fod o'r ansawdd uchaf.

*'O ystyried natur yr hyfforddwyr, roeddwn yn sicr y byddai'r dulliau y byddwn yn eu defnyddio yn cael eu hystyried yn ffafriol gan uwch reolwyr y coleg – ac Estyn.'*

Cyfranogwr y Cynllun.

2.2.6 Yn wir, nodwyd droeon fod cefnogaeth gan uwch reolwyr yn ffactor allweddol wrth hyrwyddo cyfleoedd dysgu dwyieithog ôl-16. Mae hyn yn effeithio ar ganlyniadau dysgu ehangach y rhaglen a chyfraniad Sgiliaith.

### **Canlyniadau**

2.2.7 Mae'n anodd nodi'n union y cyfraniad y mae Sgiliaith yn ei wneud i effaith a chanlyniadau ehangach y Cynllun Sabothol Cenedlaethol: mae cyfraniad Sgiliaith,

er yn gyfyngedig, yn hollbwysig i'r hyfforddiant cyffredinol a ddarperir. Er bod yr hyfforddiant methodoleg yn paratoi cyfranogwyr yn dda i gyflwyno dysgu dwyieithog, mae nifer o ffactorau eraill yn pennu p'un a yw'r cyfranogwyr yn cyflwyno'r dysgu dwyieithog hyn yn y dosbarth ai peidio ar ôl y rhaglen. Mae'r ffactorau hyn yn amrywio o alw gan ddysgwyr, argaeledd adnoddau addysgu dwyieithog, ethos sefydliad a lefel yr ymrwymiad ymysg uwch reolwyr i gyflwyno darpariaeth ddwyieithog newydd neu ychwanegol. Ni all partneriaeth Sgiliaith/CYDAG ddylanwadu ar y rhain mewn ffordd sylweddol nac ystyrlon.

- 2.2.8 Felly, er ei bod yn bosibl dod i gasgliad bod hyfforddiant Sgiliaith yn cael effaith gadarnhaol a buddiol ar gyfranogwyr – ac ar eu gallu i gyflwyno dysgu dwyieithog erbyn diwedd y rhaglen – mae'n anodd dod i gasgliad am ddylanwad y fethodoleg ar y canlyniadau ehangach yn nhermau'r addysg a ddarperir ar ôl y cynllun, o ystyried bod cynifer o ffactorau eraill yn dylanwadu ar y canlyniadau hynny.

## **Marchnata**

- 2.2.9 Un agwedd arall ar y Cynllun Sabothol a nodwyd gan nifer o'r rheiny a gyfrannodd at y gwerthusiad yw marchnata a hyrwyddo. Unwaith eto, o dan delerau ei chytundeb â Llywodraeth Cynulliad Cymru, nid oes gan bartneriaeth Sgiliaith/CYDAG rôl ffurfiol yn nhermau marchnata'r Cynllun Sabothol na recriwtio cyfranogwyr (yn wahanol i'r hyfforddiant methodoleg dros dridiau). Fodd bynnag, mae Sgiliaith a CYDAG, drwy gyfrwng eu rhwydweithio rheolaidd â cholegau ac ysgolion, mewn sefyllfa dda i nodi cyfranogwyr posibl ac i chwarae rôl wrth godi ymwybyddiaeth o'r cynllun. Byddai hyn yn gyfle i ychwanegu gwerth, wrth i'r ddau bartner roi gwybod i'r rhwydweithiau am gyfleoedd a buddion y Cynllun Sabothol Cenedlaethol.

## **2.3 Darparu staff mentora**

---

- 2.3.1 Roedd y gofyniad o ran yr elfen hon o waith y bartneriaeth yn ymwneud â chefnogi mentora yn ystod 2008/09. Y bwriad gwreiddiol oedd datblygu rhaglen fentora â sail eang, mewn partneriaeth â'r Gweithgor Mentora Dwyieithog. Diwygiwyd y cynlluniau hyn yn ddiweddarach i ganolbwyntio'r gefnogaeth ar staff addysgu a oedd wedi cymryd rhan yn y Cynllun Sabothol er mwyn eu galluogi i roi'r hyn a ddysgasant ar waith. Cafodd y mentora hefyd ei ohirio hyd nes bod



modd cael rhagor o wybodaeth gan gyfranogwyr y Cynllun Sabothol o ran y cynnydd a wnaethant ar ôl yr hyfforddiant, er mwyn dysgu rhagor am eu hanghenion mentora.

2.3.2 Fodd bynnag, roedd un coleg addysgol eisoes wedi clustnodi amser ac adnoddau i beilota'r cynllun gwreiddiol. O ganlyniad, cytunwyd i gynnal rhaglen fentora fer yn y coleg hwnnw fel cynllun peilot unigryw. Cynhaliwyd y peilot dros gyfnod o dri mis rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2009. Fel rhan o'r broses gynllunio a pharatoi, penododd y coleg fentor o blith eu staff addysgu a ystyrient fyddai'n arbennig o addas at y gwaith oherwydd ei phrofiad blaenorol o ddarparu hyfforddiant PGCE ac o wneud gwaith asesu ar ran Estyn.

2.3.3 Lluniodd y mentor raglen waith yn seiliedig ar y 36 awr o gefnogaeth yr oedd Sgiliaith wedi cytuno i'w ariannu. Ar ôl adolygu'r gweithgareddau a gynlluniwyd, awgrymodd Sgiliaith y byddai angen cynyddu lefel y gefnogaeth i 45 awr. Mewn ymgynghoriad, nododd cynrychiolwyr y coleg eu bod yn gwerthfawrogi hyblygrwydd Sgiliaith a oedd wedi'u galluogi i deilwra'r gefnogaeth yn unol â'r angen.

2.3.4 Dewiswyd y tiwtoriaid a fyddai'n cael eu mentora yn ofalus, yn ôl y meini prawf canlynol:

- Brwdfrydedd y tiwtoriaid i addysgu'n ddwyieithog.
- Pa mor addas oedd y pwnc ar gyfer cyflwyno addysgu dwyieithog.
- Proffil iaith y myfyrwyr o fewn y grŵp a oedd yn cael eu haddysgu (h.y. lle oedd digon o gymysgedd o fyfyrwyr Cymraeg a Saesneg eu hiaith).

2.3.5 Bu'r mentor yn cydweithio'n agos â Swyddog Iaith Gymraeg y coleg drwy gydol y broses, a chynigiodd y swyddog cryn dipyn o gefnogaeth wrth gynhyrchu deunyddiau gan gynnwys llyfryn o dermau a ddefnyddir ym meysydd pwnc penodol y tiwtoriaid dan sylw. Roedd y coleg o'r farn bod cyfuniad o brofiad mentora ac asesu'r mentor a chefnogaeth iaith Gymraeg y Swyddog Iaith Gymraeg yn ffactorau allweddol yn llwyddiant y peilot.

- 2.3.6 Roedd y tiwtoriaid a gafodd eu mentora yn gadarnhaol iawn o ran y canlyniadau a gafwyd a'r hyder a fagwyd ganddynt i gyflwyno rhagor o addysg ddwyieithog. Dywedodd un o'r tiwtoriaid bod y myfyrwyr Cymraeg eu hiaith wedi magu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn y dosbarth, ond hefyd bod y myfyrwyr di-Gymraeg wedi dangos diddordeb yn y termau na fyddent wedi clywed amdanynt y tu allan i amgylchedd ddysgu dwyieithog.
- 2.3.7 Soniwyd hefyd am ddylanwad ehangach na chanlyniadau dysgu'r myfyrwyr a oedd yn cymryd rhan yn uniongyrchol yn y gwersi dwyieithog. Er enghraifft, yn ôl Swyddog Iaith Gymraeg y coleg, roedd proffil yr iaith Gymraeg yn y coleg wedi cynyddu o ganlyniad uniongyrchol i'r cynllun mentora, er mai cymharol isel oedd lefel y Gymraeg cyn hynny. Teimlwyd dylanwad hyn mewn meysydd eraill mewn cyfnod cymharol fyr, gan gynnwys staff addysgu eraill yn mynegi diddordeb mewn addysgu'n ddwyieithog yn eu pwnciau hwy.
- 2.3.8 Ymddengys yn y cyfnod cynnar hwn o'r cynllun, bod dylanwad y mentora yn gynaliadwy, gyda'r tiwtoriaid eu hunain yn dweud eu bod yn bwriadu parhau i addysgu'n ddwyieithog lle bo hynny'n briodol, h.y. lle bo'r grŵp o fyfyrwyr yn cynnwys myfyrwyr Cymraeg eu hiaith a myfyrwyr di-Gymraeg.
- 2.3.9 Ar y cyfan, ystyriwyd bod y cynllun mentora wedi bod yn llwyddiant. Fodd bynnag, y farn gyffredinol oedd nad oedd cyfnod o dri mis yn ddigon hir i gynnig y gefnogaeth yr oedd ei hangen ar diwtoriaid er mwyn iddynt ddatblygu technegau addysgu dwyieithog a magu digon o hyder i'w rhoi ar waith.
- 2.3.10 Nodwyd hefyd, er bod y gefnogaeth ariannol a gynigiwyd yn talu am y rhan fwyaf o gostau amser y tiwtor, nid oedd yn talu am gostau eraill, gan gynnwys amser a chyfraniad y Swyddog Iaith Gymraeg. Ystyriwyd bod cyfraniad y Swyddog Iaith Gymraeg yn hollbwysig, ac felly y dylai'r rhaglen fentora adlewyrchu hyn.
- 2.3.11 Roedd y mentor a'r Swyddog Iaith Gymraeg hefyd o'r farn bod gofynion biwrocraidd y cytundeb o ran adrodd ac ati, yn rhesymol ac nad oedd yn gofyn mwy na'r disgwyl.

2.3.12 Ymddengys felly y bu'r peilot yn llwyddiant a'i fod yn cynnig fframwaith ddarparu y gellir ei gyflwyno mewn mannau eraill, cyhyd â bod profiad y mentor yn addas a bod digon o gefnogaeth ar gael oddi wrth y Swyddog Iaith Gymraeg.

## **2.4 Cefnogi gwaith yr LLUK o ddatblygu safonau dysgu ac addysgu**

---

2.4.1 Yn ystod cyfnod y cytundeb, bu Sgiliaith yn gweithio gyda LLUK i ddatblygu safonau proffesiynol i diwtoriaid Cymraeg i Oedolion a safonau ar gyfer addysgu dwyieithog a chyfrwng Cymraeg. Wrth wneud hynny, daeth Sgiliaith yn rhan o rwydweithiau eraill, gan weithio gyda Chanolfan Cymraeg i Oedolion Caerdydd i sicrhau bod ymarferwyr yn cael mewnbwn i'r broses o ddatblygu'r safonau.

2.4.2 Bu'r cysylltiadau â LLUK yn fodd i Sgiliaith wneud cyfraniad ehangach: cyfrannodd aelod o staff Sgiliaith at y canllawiau i athrawon sy'n datblygu sgiliau dysgwyr o ran llythrennedd a chyfathrebu (Saesneg a/neu Gymraeg) yn y sector dysgu gydol oes yng Nghymru.

## **2.5 Darparu sesiynau arfer da a hyfforddiant i staff**

---

2.5.1 Mae'r elfen hon o waith y bartneriaeth wedi esgor ar nifer o ddatblygiadau a chanlyniadau pwysig. Yn gyntaf, darparodd y bartneriaeth hyfforddiant wedi'i deilwra a oedd yn cysylltu â datblygiadau polisi allweddol. Bu sesiynau Sgiliaith a CYDAG ar oblygiadau'r agenda sgiliau a pholisi 14-19 ar ddarpariaeth ddwyieithog yn hynod boblogaidd a llwyddwyd i ragori ar dargedau.

*'Cynigiodd y sesiwn drosolwg da o'r cwricwlwm newydd sy'n seiliedig ar sgiliau a'r cyfleoedd o fewn y fframwaith i hyrwyddo dwyieithrwydd.'*

*'Cyfle da i rannu syniadau gydag athrawon eraill; amserol iawn ac yn gysylltiedig â datblygiadau polisi cyfredol.'*

Ymarferwyr a ddaeth i Hyfforddiant Sgiliaith/CYDAG ar yr Agenda Sgiliau (Aberystwyth, 2008)

- 2.5.2 Er bod rhywfaint o'r hyfforddiant wedi'i ddylunio i ymateb i ddatblygiadau polisi allweddol, roedd gweithgareddau eraill a sesiynau arfer dda wedi'u trefnu gan CYDAG mewn ymateb i anghenion penodol a nodwyd gan ei hysgolion ymgysylltiol. Roedd y rhain yn cynnwys sesiwn ar CACHE a chyrsgiau gofal cymdeithasol; roedd un arall yn seiliedig ar rannu arfer dda wrth gyflwyno Bagloriaeth Cymru. Dywedodd y rheiny a fynychodd y cyrsiau hyn eu bod yn werthfawr ac yn llawn gwybodaeth. Mae Sgiliaith a CYDAG yn casglu adborth gan gyfranogwyr, sy'n cael ei fwydo i'r broses o ddylunio a chyflwyno cyrsiau dilynol. Dyma arfer dda ar ran y bartneriaeth, gan sicrhau bod ymarferwyr yn edrych yn fanwl ar y gwasanaethau a ddarperir, sy'n helpu i gynnal ansawdd a pherthnasedd yr hyfforddiant. Mewn sesiynau blaenorol, er enghraifft, nododd rai ymarferwyr y gallai'r cyrsiau ganolbwyntio rhagor ar sut i gymhwyso rhai o'r datblygiadau polisi / cwricwlwm yn yr ystafell ddosbarth.
- 2.5.3 Mae Sgiliaith wedi arwain nifer o weithgareddau sydd wedi'u hanelu at ddatblygu fideo-gynadledda fel modd o hyrwyddo cydweithredu wrth gyflwyno darpariaeth ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg yn y sector ôl-16. Dyma waith cynyddol pwysig i hyrwyddo rhannu adnoddau mewn darpariaeth ddwyieithog, sydd hefyd â'r potensial ar gyfer defnydd ehangach wrth i gwricwla 14-19 lleol gael eu cyflwyno fesul dipyn dros y blynyddoedd nesaf.
- 2.5.4 Wrth i rwydweithiau 14-19 lleol annog ysgolion a cholegau i gydweithio'n agosach i gyflwyno'u cwricwla lleol, mae'n debygol y bydd gallu ymarferwyr i gyflwyno'n ddwyieithog yn dod yn fater cynyddol bwysig. Mae rhai o'r heriau sy'n wynebu rhwydweithiau yn debygol o ymwneud â nodi modelau effeithiol ar gyfer cynnig gwell opsiynau i ddysgwyr, wrth sicrhau hefyd bod hyn yn cynnwys darpariaeth ddwyieithog a/neu ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mewn rhai meysydd pwnc, pynciau galwedigaethol yn arbennig, mae diffyg staff dwyieithog sydd â chymwysterau addas ac mae'n bwysig, lle bo'r capasiti hwnnw ar gael, ei fod yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon. Mewn rhai achosion, gallai hyn gynnwys rhannu adnoddau ar draws ffiniau rhwydweithiau lleol a mabwysiadu dull rhanbarthol o gynllunio a chyflwyno darpariaeth ddwyieithog. Mae fideo-gynadledda yn cynnig cyfleoedd yn hyn o beth, a gallai profiad Sgiliaith a CYDAG o weithio gydag ymarferwyr sy'n defnyddio dulliau o'r fath lywio'r ffordd y mae rhwydweithiau yn cynllunio darpariaeth ddwyieithog.

## **Casgliad**

- 2.5.5 O safbwynt darparu hyfforddiant dwyieithrwydd i ysgolion a cholegau, yn ôl prif raglen waith y bartneriaeth o dan ei chytundeb â Llywodraeth Cynulliad Cymru, canfu'r gwerthusiad bod targedau allweddol wedi'u cyrraedd a bod ymarferwyr yn rhoi gwerth mawr ar y gyfres o raglenni hyfforddiant a ddarparwyd.

### **3 HYFFORDDIANT I DDATBLYGU DWYIEITHRWYDD YM MAES DYSGU SEILIEDIG AR WAITH**

---

#### **3.1 Cyflwyniad a throsolwg**

---

3.1.1 Dyma'r elfen o waith partneriaeth Sgiliaith/CYDAG sydd wedi cyflwyno'r heriau mwyaf, a'r farn gyffredin yw mai dyma'r gwaith sydd wedi gweld y cynnydd lleiaf o ran yr amcanion a bennwyd yn y cytundeb. Ni wireddwyd y nod gwreiddiol, sef peilota dull canolog o ddatblygu darpariaeth ddwyieithog yn y maes dysgu seiliedig ar waith. Mae'n glir o drafod â staff Sgiliaith, darparwyr dysgu seiliedig ar waith, dysgwyr a Llywodraeth Cynulliad Cymru, fodd bynnag, na fu prinder gweithgarwch yn y maes yn ystod cyfnod y cytundeb, na diffyg ymdrech ar ran y bartneriaeth i fynd â'r agenda hon rhagddi. Fodd bynnag, erys amryfal rwystrau, sy'n mynd y tu hwnt i gylch dylanwad uniongyrchol y bartneriaeth, ac mae'r rhain wedi rhwystro'r cynnydd.

3.1.2 Mae'r Cynulliad, fel Cleient a noddwr, a Sgiliaith/CYDAG fel contractwr, wedi trafod y materion a'r rwystrau hyn o ran dysgu seiliedig ar waith yn rheolaidd.

#### **3.2 Yr heriau a wynebwyd**

---

3.2.1 Gan gydnabod yr anawsterau a wynebwyd, cyflwynodd un o aelodau staff Sgiliaith bapur ym mis Hydref 2008 a oedd yn asesu cynnydd ac yn crynhoi rhai o'r materion allweddol sydd wedi rhwystro'r cynnydd hwnnw. Maent yn cynnwys:

- Diffyg sgiliau dwyieithog cyffredinol ymysg aseswyr.
- Diffyg adnoddau a chapasiti i ddatblygu adnoddau newydd (er bod Sgiliaith wedi cyfrannu at y gwaith o ddatblygu adnoddau dwyieithog newydd ar gyfer dysgu seiliedig ar waith, gan gynnwys holiaduron a deunyddiau asesu i'w defnyddio gan aseswyr dysgu seiliedig ar waith (WBL) o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth, cynaliadwyedd, iechyd a diogelwch a rhifedd).
- Amharodrwydd ar ran y cyrff dyfarnu i sicrhau bod safonau galwedigaethol ar gael yn ddwyieithog (e.e. cafodd Sgiliaith broblemau yn ystod ei waith ym maes gwasanaeth i gwsmeriaid, gan nad oedd safonau CGC (NVQ) ar gael drwy fwrdd arholi OCR).
- Diffyg galw am ddarpariaeth WBL ddwyieithog gan ddysgwyr a chyflogwyr.

- 3.2.2 Yn nhermau'r esblygiad sydd ei angen i fynd i'r afael â'r materion hyn, soniwyd bod angen newid diwylliant ym maes asesu'r gweithle, ynghyd â rhagor o gymhelliant i ddarparwyr WBL ddarparu'n ddwyieithog. Cyfyng yw gallu sefydliad fel Sgiliaith i ddylanwadu ar yr uchod felly. Mae newidiadau enfawr i strwythurau cyflwyno a pholisïau iaith y sefydliadau sy'n ymwneud â darparu WBL y tu allan i gylch gwaith y bartneriaeth.
- 3.2.3 Un o'r mentrau a arweiniwyd gan Sgiliaith, mewn cydweithrediad â darparwyr WBL, a gafodd ganlyniadau cadarnhaol oedd cynllun peilot y fenter hyfforddi ar ofal cwsmeriaid. Aethpwyd ati i ganolbwyntio ar ymdrechion grŵp o ddysgwyr mewn maes galwedigaethol penodol.
- 3.2.4 Yn wir, yn ôl trafodaethau â dau ddarparwr WBL, sef Arfon Dwyfor Training (ADT) a Hyfforddiant Môn, mae cynnydd yn cael ei weld. Gan weithio gyda staff Sgiliaith, cynhyrchwyd adnoddau dwyieithog gan ei gwneud yn bosibl i roi hyfforddiant dwyieithog ar reoli, gwasanaeth i gwsmeriaid ac iechyd a diogelwch. Cydnabyddir eu bod yn dechrau o lefel isel iawn, ond serch hyn, noda ADT fod nifer cynyddol o ddysgwyr yn dilyn hyfforddiant dysgu seiliedig ar waith dwyieithog.
- 3.2.5 Mae partneriaeth rhwng Sgiliaith ac ADT yn anelu at ddarparu cyfleodd dysgu WBL dwyieithog yn y sector cyhoeddus wedi dwyn ffrwyth. Nododd un o gyflogeion Cyngor Gwynedd a gyfrannodd at y gwerthusiad:

*'Rwy'n gwneud CGC Lefel 4 yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg, gan mai hon yw prif iaith yr adran yr wyf yn gweithio ynddi ac felly mae'r holl dystiolaeth yr wyf yn ei chasglu yn Gymraeg. Roedd y cwrs ILM yn Saesneg, gan nad oedd rhai o'r tiwtoriaid yn siarad Cymraeg ac felly nid oedd dewis arall mewn gwirionedd. Mae dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg lawer yn fwy naturiol i mi ac felly roedd y prosiect ILM yn dipyn o her - wedi dweud hynny, mae'n bosibl iddo wneud lles i mi!'*

Dysgwr yn y rhaglen Dysgu Seiliedig ar Waith, Gogledd Cymru

- 3.2.6 Mae'r sylwadau uchod yn dangos rhai o'r gwendidau systemig sy'n rhwystro datblygiadau yn y maes dysgu seiliedig ar waith. Mae diffyg tiwtoriaid

(ac aseswyr) yn golygu bod yr opsiynau yn gyfyng iawn – hyd yn oed mewn ardaloedd o Gymru sydd â chyfran uchel o siaradwyr Cymraeg.

- 3.2.7 Ceir hefyd gylch dieflig sy'n rhwystro datblygiadau. Cysylltodd y tîm â sampl o ddarparwyr WBL eraill ledled Cymru i weld faint ohonynt sy'n cynnig cyfleoedd dysgu dwyieithog a lefelau'r galw gan ddysgwyr am ddarpariaeth ddwyieithog. O'r ymatebion a gafwyd, ymddengys nad oes llawer o alw gan ddysgwyr, gan olygu nad yw'n flaenoriaeth i'r rhan fwyaf o ddarparwyr. Gan ei fod yn flaenoriaeth isel, a chan mai galw gan ddysgwyr sy'n pennu eu dull o gynllunio busnes, nid yw'r mwyafrif yn bwriadu datblygu sgiliau dwyieithog eu tiwtoriaid neu eu hyfforddwyr.

### 3.3 Casgliadau

---

- 3.3.1 Er nad yw'r gwaith hwn wedi cyflawni cymaint ag y disgwyliwyd yn ôl y bwriad gwreiddiol, mae gwaith Sgiliaith wedi esgor ar ddealltwriaeth ddyfnach o'r rhwystrau ymarferol a'r cyfyngiadau ar ddatblygu dysgu seiliedig ar waith dwyieithog. O ystyried canlyniadau blwyddyn gyntaf y gwaith, roedd Sgiliaith yn iawn i beidio â mynd rhagddi i beilota strwythur canolog ehangach.
- 3.3.2 Ar sail y dystiolaeth a gasglwyd hyd yma, ac oherwydd canlyniadau'r rhan hon o waith y bartneriaeth, cynigir na ddylai dwyieithrwydd yn y maes dysgu seiliedig ar waith fod yn rhan greiddiol o gylch gwaith Sgiliaith o dan gytundeb newydd. Fodd bynnag, dylid galluogi'r bartneriaeth i gefnogi datblygiadau mewn dwyieithrwydd yn y maes WBL mewn ffordd fwy penodol. Mae'r gwaith a wnaed yn ystod cyfnod y cytundeb wedi dangos y gall cefnogaeth dwysach ac wedi'i theilwra ddwyn ffrwyth a gall helpu i newid agweddau ac arferion gwaith ymysg darparwyr WBL a all baratoi'r ffordd ar gyfer darpariaeth ddwyieithog newydd.



## 4 ACHREDU A HYRWYDDO'R UNEDAU *IAITH AR WAITH*

---

### 4.1 Cefndir

---

- 4.1.1 Bu Sgiliaith yn ganolog i'r gwaith o ddatblygu a pheilota'r unedau *Iaith ar Waith*, sy'n galluogi dysgwyr i wella'u sgiliau dwyieithog er mwyn eu defnyddio yn y gweithle. Mewn cydweithrediad â phartneriaid yng Ngholeg Menai, aeth Sgiliaith ati i ddatblygu unedau Rhwydwaith y Coleg Agored er mwyn meithrin sgiliau gofal cwsmer dwyieithog.
- 4.1.2 Roedd yr unedau wedi'u targedu at siaradwyr Cymraeg a myfyrwyr ôl-16 a oedd wedi bod drwy addysg Gymraeg. Drwy ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg mewn meysydd pwnc penodol, bwriad yr unedau yw rhoi'r hyder a'r eirfa angenrheidiol i ddysgwyr er mwyn ymateb i gwsmeriaid a chleientiaid Cymraeg eu hiaith yn y gweithle. Mae staff Sgiliaith wedi bod yn rhagweithiol ac yn effeithiol wrth addasu'r unedau, gan recriwtio colegau i beilota'r unedau a hyfforddi tiwtoriaid i'w cyflwyno.
- 4.1.3 Un o agweddau pwysig y cytundeb oedd trafod â chyrrff dyfarnu gyda'r bwriad o ffurfioli'r unedau *Iaith ar Waith*. Roedd hyn wedi digwydd yn gynt na'r disgwyl, ar ôl i Sgiliaith arwain trafodaethau cynhyrchiol â CBAC, sydd bellach yn darparu achrediad ffurfiol ar gyfer *Iaith ar Waith*, a hynny ar bedair lefel wahanol. Cafodd cynlluniau peilot eu cynnal yn ystod 2008/09, ac mae ymarferwyr a dysgwyr fel ei gilydd wedi croesawu'r unedau hyn.
- 4.1.4 Mae hyblygrwydd *Iaith ar Waith* (a ellir ei ddefnyddio fel uned ieithyddol ychwanegol i ategu ystod o wahanol gyrsiau sy'n cynnwys elfen o ofal cwsmer) yn golygu fod iddo apêl eang. Er iddo gael ei ddatblygu'n wreiddiol gan Sgiliaith mewn partneriaeth â Choleg Menai, mae nifer o golegau eraill yng Ngogledd a De Cymru wedi'i beilota ers hynny.

### 4.2 Diwallu anghenion dysgwyr

---

- 4.2.1 Mewn rhai ffyrdd, mae *Iaith ar Waith* yn ddull newydd o hyrwyddo dwyieithrwydd ymysg dysgwyr mewn addysg bellach. Mae gwaith ymchwil a wnaed gan Sgiliaith ei hun ar agweddau myfyrwyr tuag at ddatblygu a defnyddio'r

Gymraeg mewn AB wedi dangos bod angen pwysleisio pwysigrwydd sgiliau dwyieithog mewn cyflogaeth. Wrth gyflwyno a marchnata unedau dwyieithog newydd, teimlwyd bod angen tynnu ar ddyheadau dysgwyr a chyfleu'r neges fod sgiliau dwyieithog yn sgil ychwanegol (y gellir ei farchnata) yn y gweithle. Cefnogwyd hyn gan un cynrychiolwr AB, a nododd y canlynol:

*'Yr apêl i ddysgwyr yw bod hwn yn bluen arall yn eu cap. Mae'r unedau yn rhoi cydnabyddiaeth ychwanegol, os hoffech chi, o'r sgiliau sydd ganddynt, a'r rheiny'n sgiliau na fyddent o bosibl wedi meddwl bod gwerth arnynt na'u bod yn berthnasol i'w maes. Mae'n ddyddiau cynnar wrth gwrs, ond ymddengys bod laith ar Waith wedi'i dargedu at y lefel gywir ac at y grwpiau targed cywir.'*

### 4.3 Ymateb gan golegau

---

- 4.3.1 Er mai cyfnod peilot yn unig yw hwn, cafwyd ymateb cadarnhaol gan reolwyr ac ymarferwyr hyd yma – a hynny mewn colegau yng ngogledd ac yn ne Cymru. Un o'r manteision amlwg yw ei hyblygrwydd: mae'r unedau *laith ar Waith* yn ategu ystod o ddisgyblaethau sy'n cynnwys rhyngweithio â'r cyhoedd. Gall colegau felly gymryd perchnogaeth a nodi ymhle y mae cyfleoedd yn bodoli ym mhortffolio eu cyrsiau.

*'Mae'r unedau'n glir, wedi'u strwythuro'n dda ac yn ychwanegu gwerth.'*

*'Mewn Cymru ddwyieithog, mae darparu gwasanaethau i gleientiaid yn eu dewis iaithyn gyfystyr â gofal cwsmer da. Mewn egwyddor, mae'n syniad da, ac yn ymarferol, mae'r unedau'n gweithio'n dda.'*

Cynrychiolwyr yn y sector AB

### 4.4 Casgliadau

---

- 4.4.1 Mae'r elfen hon o'r cytundeb yn dangos sut mae Sgiliaith mewn sefyllfa unigryw i ddarparu cefnogaeth ganolog er mwyn datblygu adnoddau a darpariaeth ddwyieithog. Er bod ymdrechion yn cael eu gwneud i ddarparu hyfforddiant

galwedigaethol dwyieithog, sylweddolodd Sgiliaith, drwy gyfrwng ei waith agos â cholegau, nad oedd unrhyw gydnabyddiaeth i ddysgwyr ac felly bach iawn o gymhelliant i sefydliadau chwilio am gyfleoedd i wella'r ddarpariaeth. Ar ôl adnabod y galw, bu modd i Sgiliaith arwain y gwaith o ddatblygu deunyddiau, trefnu a chyflwyno hyfforddiant, marchnata'r unedau a thrafod cydnabyddiaeth ffurfiol i'r unedau. Mae'n anodd gweld sut neu ymhle y gellid dod o hyd i sefydliad arall ag ystod sgiliau o'r fath.

- 4.4.2 Fel y nodwyd uchod, dyddiau cynnar yw hi ar hyn o bryd ac mae llawer o waith ar ôl i'w wneud i ymestyn *laith ar Waith* ar draws colegau AB eraill yng Nghymru. Gobaith Sgiliaith yw y dengys y cyfnod peilot awydd ddigonol ymysg y colegau sy'n cymryd rhan i ehangu'r defnydd o unedau *laith ar Waith*, ac yr adwaenir pynciau eraill, lle gellid eu cyflwyno.
- 4.4.3 Mae'n debygol y bydd gwersi i'w dysgu o beilot *laith ar Waith*, a hynny o safbwynt strwythur yr unedau, cyflwyno ar lefel y coleg a marchnata. Yn ôl staff Sgiliaith yr ymgynghorwyd â hwy yn ystod yr astudiaeth, maent yn bwriadu gwerthuso'r canlyniadau a'r effeithiau ar ddiwedd y cyfnod peilot (sef diwedd blwyddyn academaidd 2008-09). Rhydd hyn gyfle i nodi'r gwersi a llywio'r gwaith o ehangu'r defnydd o'r unedau. Dylai Sgiliaith barhau i chwarae rôl ganolog wrth hyrwyddo'r unedau ac wrth roi cyngor a chyfarwyddyd i golegau wrth iddynt adnabod cyrsiau a disgyblaethau all ymgorffori unedau *laith ar Waith*.

## 5 CEFNOGAETH WRTH NODI ANGHENION A RHWYDWEITHIAU DWYIEITHOG A CHYFRWNG CYMRAEG

---

### 5.1 Cefndir a rhwymedigaethau cytundebol

---

5.1.1 O dan rwymedigaethau pedwaredd elfen y cytundeb, roedd gofyn i'r bartneriaeth nodi arbenigwyr i gefnogi'r gwaith o ddatblygu adnoddau ym mhob un o'r saith maes gwaith y pennwyd eu bod yn flaenoriaeth<sup>1</sup>. Nod hyn oedd adeiladu ar waith blaenorol Sgiliaith/CYDAG gyda phaneli pwnc yn 2005-07. ELWa a benodd y pynciau blaenoriaeth:

*“i ddiwallu anghenion y gweithle mewn sectorau lle ceir galw cryf am sgiliau Cymraeg neu le y gallai cyflogwyr fod ar eu hennill yn economaidd drwy hyrwyddo'r Gymraeg.”<sup>2</sup>*

5.1.2 Grŵp o ymarferwyr mewn pynciau penodol oedd y paneli pwnc – wedi'u tynnu'n bennaf o'r sector AB ond gyda rhai cynrychiolwyr o ysgolion – gweinyddwyd gan staff Sgiliaith. Tynnwyd y grwpiau hyn at ei gilydd i drafod ystod o faterion a oedd yn ymwneud ag adnoddau dwyieithog yn eu meysydd penodol, gan nodi unrhyw fylchau a bwydo awgrymiadau i broses gomisiynu adnoddau dwyieithog a chyfrwng Cymraeg APADGOS.

5.1.3 Un o'r amcanion penodol a bennwyd fel rhan o'r cytundeb cyfredol oedd trefnu a chynnal paneli pwnc, i'w mynychu gan 10 o ddarparwyr ym mhob maes blaenoriaeth i gynnwys hyfforddiant a defnydd o gyfleusterau Rhannu mewn pynciau perthnasol.

5.1.4 Cafwyd anawsterau dros nifer o flynyddoedd wrth dynnu paneli pwnc at ei gilydd gan fanteisio i'r eithaf ar eu mewnbwn i'r broses o ddatblygu adnoddau a reolir gan APADGOS. Cafwyd rhai o'r un anawsterau yn ystod cyfnod y cytundeb hwn:

---

<sup>1</sup> Yn bennaf Blynyddoedd Cynnar, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Busnes, Twristiaeth, Bagloriaeth Cymru, Amaeth a Drama/Cyfryngau/Celfyddyd Perfformio. Roedd y rhain yn adeiladu ar y meysydd pwnc blaenoriaeth a gytunwyd gydag ELWa yn ystod blwyddyn gyntaf y cytundeb blaenorol. Cafodd Bagloriaeth Cymru ei chynnwys fel maes pwnc ychwanegol.

<sup>2</sup> *Comisiynu Adnoddau Dysgu ac Addysgu Cymrwng Cymraeg a Dwyieithog 2003-04* (Cylchlythyr ELWa Cyf: NC/C/03/03SLD ) Ebrill 2003

- Cafwyd anawsterau wrth drefnu amseroedd cyfleus i athrawon a darlithwyr.
- Trosiant / aelodaeth byrdymor y paneli pwnc (h.y. er ei bod yn bosibl cael cynrychiolwyr i fynychu, nid yw llawer ohonynt yn mynychu'r cyfarfodydd dilynol, gan olygu nad oes llawer o barhad yn y rhaglenni gweithgarwch, ac mae hyn yn ei gwneud yn anodd cynllunio'r gwaith o ddatblygu adnoddau mewn rhai achosion).
- Prinder unigolion sy'n cyflwyno darpariaeth ddwyieithog ar draws y sector mewn rhai meysydd pwnc. (Nodwyd bod y targed o gael 10 darparwr i fynychu cyfarfod panel mewn rhai meysydd blaenoriaeth yn afrealistig).

5.1.5 Nodwyd yr anawsterau hyn mewn gwerthusiadau blaenorol (Gwerthusiad o'r Gronfa Her Dysgu, *Shared Intelligence* 2006) a argymhellodd gyfuno cyfarfodydd y paneli pwnc â digwyddiadau eraill. Mae'r argymhellion hyn eisoes wedi'u gweithredu, yn ogystal ag ymgais i gyfyngu ar amser teithio trwy gynnal cyfarfodydd drwy gyfrwng fideo-gynadledda. Fodd bynnag, cyfyngedig yw'r llwyddiant a gafwyd wrth oresgyn yr heriau hyd yma.

5.1.6 Serch hyn, cyfarfu rhai paneli pwnc mewn rhai meysydd blaenoriaeth: iechyd a gofal cymdeithasol, amaeth a thwristiaeth. Yn ogystal, trefnwyd sesiynau drwy gyfrwng fideo-gynadledda gydag arbenigwyr pwnc mewn drama/astudiaethau cyfryngau a busnes. Mae'r adborth a gafwyd gan y cyfranogwyr yn dangos ymateb a chanlyniadau cymysg gan y paneli pwnc hyn. Y farn gyffredin ar draws y sector yw bod angen dull mwy uniongyrchol o alluogi ymarferwyr i fwydo'u syniadau i broses gomisiynu APADGOS, drwy un pwynt neu unigolyn efallai.

## 5.2 Dull o weithio diwygiedig

---

5.2.1 Hyd yma, mae'r paneli pwnc wedi digwydd ar hap, gyda phartneriaeth Sgiliaith/CYDAG yn darparu cymorth gweinyddol i hwyluso a chynnal cyfarfodydd, boed hynny wyneb yn wyneb neu drwy gyfrwng fideo-gynadledda.

5.2.2 Yn dilyn cyfarfod y Grŵp Strategol dros ddatblygu adnoddau ar ddechrau 2008 a thrafodaethau mewnol dilynol o fewn Uned Datblygu'r Iaith Gymraeg yn APADGOS, bwriedir newid y dull o weithio. Y bwriad yw penodi Swyddogion Pwnc

i arwain ar y datblygiadau, gan weithio 20 diwrnod y flwyddyn. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd y broses benodi ar fin dirwyn i ben. Mae'n debygol y bydd gwybodaeth Sgiliaith am y datblygiadau mewn meysydd pwnc penodol a'i rwydwaith o gysylltiadau yn asedau hollbwysig i'r Swyddogion Pwnc ac awgrymwyd y dylai'r swyddogion hyn allu ymgynghori â staff Sgiliaith, a gofyn am fewnbwn ganddynt lle bo angen.

- 5.2.3 Yng ngoleuni'r newidiadau yn yr amgylchedd bolisi o safbwynt y meysydd pwnc galwedigaethol sy'n flaenoriaeth, mae'n bosibl y bydd angen i rôl Sgiliaith/CYDAG mewn parthynas â'r paneli pwnc newid yn y dyfodol hefyd. Mae'n bosibl y bydd angen iddynt ganolbwyntio llai ar y rôl weinyddol o hysbysebu a chydlynu'r broses o ffurfio'r paneli, a chanolbwyntio mwy ar lywio'r broses o ddatblygu adnoddau dwyieithog mewn meysydd pwnc allweddol. Mae'n bosibl hefyd y bydd angen i'w rôl newid neu ymestyn i gynnwys casglu gwybodaeth gan Gynghorau Sgiliau Sector, a allai hefyd lywio'r broses o ddatblygu adnoddau dwyieithog pellach.

## 6 SYLWADAU AC ARGYMHELLION I GLOI

---

### 6.1 Amrywiaeth y rolau a'r swyddogaethau

---

- 6.1.1 Ceir anawsterau annatod wrth geisio mesur cyfraniad partneriaeth Sgiliaith/CYDAG i'r broses o ddatblygu darpariaeth ddwyieithog yn yr ystyr ehangach. Mae'r bartneriaeth yn gwneud cyfraniadau gwahanol i bob un o bedair elfen allweddol y cytundeb.
- 6.1.2 Mewn rhai achosion, mae Sgiliaith/CYDAG yn arwain menter, a'r bartneriaeth yw unig ddarparwr y rhaglen waith (e.e. yn achos yr hyfforddiant methodoleg dros dridiau). Mewn achosion eraill, mae'r bartneriaeth yn cyfrannu at raglen genedlaethol ehangach, gan chwarae rôl benodol a gwneud cyfraniad tawel (Cynllun Sabothol Cenedlaethol). Weithiau, mae'r bartneriaeth yn hwylusydd, yn tynnu partneriaid eraill at ei gilydd i annog gweithgarwch newydd neu rannu arfer gorau. Yn fras, mae'r bartneriaeth yn defnyddio ei harbenigedd a'i gwybodaeth o ddarpariaeth ddwyieithog yn y sector ôl-16 mewn nifer o wahanol ffyrdd: ym mhob achos, mae'r gwerthusiad hwn wedi canfod bod y gefnogaeth a'r hyfforddiant a ddarperir yn adeiladol, yn cael ei werthfawrogi ac yn tynnu ar ddealltwriaeth arbenigol o'r cyfleodd a'r heriau a wynebir wrth hyrwyddo addysg ddwyieithog.

### 6.2 Crynodeb o berfformiad yn erbyn yr allbynnau a fwriadwyd

---

- 6.2.1 Mae'r tabl isod yn ceisio crynhoi'r holl gyfraniadau hyn, gan gyfeirio at y rhwymedigaethau a nodwyd yng nghytundeb y bartneriaeth â Llywodraeth Cynulliad Cymru rhwng 2007-09. Rhydd hefyd farn gychwynnol y gwerthuswyr ar eu heffeithiolrwydd, a ph'un a yw pob elfen yn flaenoriaeth y dylid mynd i'r afael â hi y tu hwnt i gyfnod y cytundeb.
- 6.2.2 Ar ôl y tabl, awn ati i grynhoi'r casgliadau sy'n ymwneud â chwestiynau allweddol y gwerthusiad.

TABL 2 – Trosolwg o’r canfyddiadau

ELFEN Y CYTUNDEB	RÔL PARTNERIAETH SGILIAITH/CYDAG	CASGLIAD BRAS; BLAENORIAETH Y DYFODOL?
<p><b>HYFFORDDIANT DWYIEITHRWYDD MEWN YSGOLION A CHOLEGAU</b></p>		
<p>Hyfforddiant methodoleg dros dridiau</p>	<p>Datblygu’r rhaglen; yn gyfrifol am hyrwyddo a chyflwyno’r hyfforddiant</p>	<p>Ysgolion a cholegau yn ystyried ei fod yn effeithiol. Yr effaith yn y tymor canolig a’r hirdymor heb ei ddeall yn llawn eto. Tystiolaeth o gynnydd graddol yn y galw am yr hyfforddiant, yn sgil ei hyrwyddo yn ehangach.</p> <p>Dylai barhau yn flaenoriaeth o dan gytundeb diwygiedig, yng nghyd-destun y posibilrwydd o gynllunio darpariaeth ddwyieithog ehangach o dan ddatblygiadau cwricwlwm lleol 14-19.</p>
<p>Cefnogi gwaith y LLUK i ddatblygu safonau dysgu ac addysgu newydd</p>	<p>Cyfrannwr a chynghorwr allweddol i LLUK wrth ddatblygu safonau ar gyfer addysg ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg.</p>	<p>Cyfraniad gwerthfawr.</p> <p>Aneglur i ba raddau y bydd galw parhaus am gyfraniad y bartneriaeth at ddatblygu safonau, canllawiau a chyfarwyddiadau tebyg yng Nghymru. Angen ei ystyried ymhellach.</p>
<p>Sesiynau hyfforddiant methodoleg fel rhan o’r Cynllun Sabothol Cenedlaethol</p>	<p>Cyfrannu at hyfforddiant methodoleg pedagogaid i ategu’r hyfforddiant iaith a gyflwynir ym Mangor ac yng</p>	<p>Mae’r bartneriaeth mewn sefyllfa ddelfrydol i ddarparu’r agwedd hon ar yr hyfforddiant o dan y Cynllun Sabothol Cenedlaethol. Ymateb cadarnhaol cryf.</p> <p>Bydd yn aros yn nodwedd bwysig o’r cynllun, ac felly, dylid parhau i’w gefnogi</p>



	Ngghaerdydd.	fel rhan o'r cytundeb newydd.
Mentora	Arwain y gwaith o ddylunio a chyflwyno'r rhaglen fentora beilot; yn y broses o ddatblygu rhaglen fentora yn canolbwyntio ar gyn-gyfranogwyr y Cynllun Sabothol.	Bydd Sgiliaith yn chwarae rôl allweddol wrth gefnogi rhaglenni mentora pellach yn y dyfodol, gan ganolbwyntio'n bennaf ar y rheiny sydd wedi cymryd rhan yn y Cynllun Sabothol.  Mae'r gwersi a ddysgwyd yn sgil y prosiect peilot yn awgrymu y dylai Sgiliaith fynd ati i greu prosiectau mentora yn y dyfodol mewn modd tebyg i'r cynllun peilot; er y gellid ystyried ymhellach sut i alluogi'r broses fentora, lle bo angen, i gael ei chynnal dros gyfnod hirach o amser na'r tri mis a bennir gan y peilot.
Sesiynau arfer da a hyfforddiant i staff	Arwain yr holl agweddau ar hyn	Caiff yr agwedd hon ei llywio gan ddatblygiadau polisi allweddol a materion a nodwyd gan ymarferwyr. Mae mwy o gwmpas i hyrwyddo rhannu adnoddau a sgiliau o bell. Dylai'r bartneriaeth, â'i gwybodaeth am ba adnoddau sydd ar gael a beth y gellid ei ddefnyddio'n ehangach ledled y sector ôl-16, barhau i arwain ar hyn. Mewn rhai achosion, bydd angen cydweithio'n agos â phartneriaid (e.e. NGfL).  Fel gwasanaeth cefnogol canolog, mae angen i'r bartneriaeth allu ymateb i faterion sy'n dod i'r wyneb a gallu cyflwyno canllawiau, cyngor a hyfforddiant wedi'i deilwra. Mae, felly, yn flaenoriaeth barhaus.
<b>HYFFORDDIANT I DDATBLYGU DWYIEITHRWYDD MEWN DYSGU SEILIEDIG AR WAITH</b>	Tasg y bartneriaeth oedd cydlynu ymdrechion i wella darpariaeth ddwyieithog.	Nid yw hyn wedi datblygu yn ôl y bwriad gwreiddiol, gyda gwendidau systemig mewn darpariaeth ddwyieithog yn y maes dysgu seiliedig ar waith, nad yw Sgiliaith/CYDAG mewn sefyllfa i ddylanwadu arnynt yn uniongyrchol. Gwnaed

		<p>rhywfaint o gynnydd drwy gyfrwng gwaith wedi'i dargedu gydag ambell ddarparwr yn y maes.</p> <p>Dyma opsiwn posibl ar gyfer y cytundeb nesaf – datblygu canllawiau arfer da ar ddarpariaeth ddwyieithog yn y maes dysgu seiliedig ar waith, yn seiliedig ar y cynnydd a wnaed eisoes mewn rhai ardaloedd.</p>
<b>ACHREDU A HYRWYDDO'R UNEDAU IAITH AR WAITH</b>	Partner arweiniol: datblygu a marchnata'r unedau; hyfforddi'r tiwtoriaid; sicrhau statws achrededig ffurfiol; monitro canlyniadau.	<p>Ar sail canfyddiadau'r gwerthusiad hwn, gwelir bod cynnydd da yn cael ei wneud.</p> <p>Bydd gan y bartneriaeth rôl bwysig wrth gynghori ar unrhyw gynlluniau i gyflwyno'r unedau ar ôl y cyfnod peilot.</p>
<b>CEFNOGAETH WRTH NODI ANGHENION A RHWYDWEITHIAU DWYIEITHOG A CHYFRWNG CYMRAEG</b>	Rôl allweddol wrth annog aelodau'r paneli pwnc i gymryd rhan; codi ymwybyddiaeth drwy ei rhwydwaith o gysylltiadau ledled y sector hefyd.	<p>Mae'n bosibl bod angen ehangu'r paneli pwnc a'r ffocws ar ddatblygu adnoddau dwyieithog newydd ac amgen i gynnwys rhagor o feysydd pwnc na'r chwech sy'n flaenoriaeth ar hyn o bryd.</p> <p>Mae'n bosibl y bydd angen i Sgiliaith ganolbwyntio llai ar yr agweddau gweinyddol sy'n ymwneud â hwyluso cyfarfodydd y paneli a chwarae rôl fwy strategol yn nhermau datblygu adnoddau dwyieithog mewn meysydd pwnc allweddol.</p>

### 6.3 Cryfderau a gwendidau model 'Sgiliaith'

---

- 6.3.1 Mae model Sgiliaith yn fodel o wasanaeth cefnogol canolog yn seiliedig o fewn sefydliad AB. Mae gan y sefydliad dan sylw (Coleg Meirion Dwyfor) draddodiad o ddarparu addysg ôl-16 ddwyieithog, gan roi cyfleoedd i staff Sgiliaith ddatblygu'r sgiliau a'r arbenigedd i ddarparu cefnogaeth ledled y sector. Beth yw manteision ac anfanteision y model hwn?
- 6.3.2 Un o fanteision gwasanaeth canolog o fewn sefydliad AB yw ei fod yn cynnig strwythur sefydliadol sydd (i ryw raddau) wedi'i ddiogelu rhag y pwysau a'r ansicrwydd sydd yn aml yn gysylltiedig â rhaglenni sydd wedi'u hariannu am dymor byr. Yn hyn o beth, mae cadw staff yn allweddol: mae'r gwasanaethau a ddarperir gan Sgiliaith yn seiliedig ar sgiliau penodol, gwybodaeth a phrofiad (unigolion) ac felly mae gallu'r bartneriaeth i gyflwyno yn ddibynnol i raddau helaeth ar gadw'r profiad a'r sgiliau hynny.
- 6.3.3 Mae'r model hefyd yn seiliedig ar yr egwyddor o gefnogi'r sector 'oddi mewn'. Mae'r gwasanaethau a ddarperir gan y bartneriaeth yn canolbwyntio ar ymarferwyr ac felly mae adnodd canolog sydd wedi'i gwreiddio yn y sector yn galluogi'r rheiny sy'n gysylltiedig â hi i weithredu o safbwynt ymarferwyr. Mae hyn yn ei dro yn galluogi'r bartneriaeth i fod yn fwy ymatebol i bolisiau a strategaethau newydd. Yn hyn o beth, mae cysylltiadau agos â changen Polisi Dwyieithrwydd APADGOS yn hanfodol i lwyddiant y model, gan sicrhau bod y bartneriaeth yn ymwybodol o'r datblygiadau polisi sy'n effeithio ar ei weithgareddau a'r cyd-destun y mae'n gweithio ynddi. Canfu'r gwerthusiad fod perthynas waith cadarn a phroffesiynol rhwng y ddau barti.
- 6.3.4 Ar lefel ymarferol, mae adnodd canolog o fewn coleg yn ei gwneud yn bosibl i rannu rhai adnoddau, gan wella effeithlonrwydd y broses o ddarparu gwasanaethau o gymharu ag adnodd canolog wedi'i lleoli mewn man arall.
- 6.3.5 Gellid gofyn y cwestiwn: a yw lleoliad Sgiliaith mewn coleg yng ngogledd-orllewin Cymru yn broblematig o ran gallu darparu cefnogaeth ar draws y sector yn ei gyfanrwydd? Nid yw'r dystiolaeth yn dangos hyn. Mae'r ganolfan wedi gallu ymestyn yn bellach dros y blynyddoedd diwethaf ac mae ystod y sefydliadau sy'n ymwneud â'r amryw weithgareddau a arweinir gan y bartneriaeth (gan gynnwys

rhaglenni hyfforddi a mentrau eraill) yn dangos bod cefnogaeth yn cael ei darparu ar hyd a lled y wlad. Er enghraifft, mae colegau AB yn ne-ddwyrain Cymru yn cymryd rhan mewn peilot *laith ar Waith*; roedd coleg yn ne-orllewin Cymru yn ffocws ar gyfer gweithgarwch mentora.

6.3.6 Fel yr awgrymwyd yn adran 6.3.2 uchod, un o wendidau posibl Sgiliaith (a'r model y mae yn ei gynrychioli) yw ei fod yn ddibynnol iawn ar arbenigedd nifer cymharol fach o unigolion. Mae hyn yn esgor ar bryderon am gynaliadwyedd a chadernid hirdymor posibl rhai o'r gweithgareddau a gefnogir gan Sgiliaith. Mae hefyd yn codi amheuaeth am allu'r sefydliad i ymateb i gynnydd yn y galw am rai o'r cyrsiau hyfforddiant y mae'r bartneriaeth yn ei gyflwyno.

6.3.7 Nid yw'r adran hon yn ceisio cyflwyno arfarniad cynhwysfawr o fodolau amgen. Fodd bynnag, ystyriwn fod y trefniant presennol yn cynnig gwasanaeth cefnogol effeithiol am y prif resymau hyn:

- i) Mae mewn sefyllfa unigryw i gyflwyno hyfforddiant a chanllawiau **o safbwynt ymarferwr**;
- ii) Fel partneriaeth, mae Sgiliaith a CYDAG wedi dangos eu bod yn **ymateb yn ddeinamig ac yn gyflym i newid**, gan gydweithio â Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddiwygio ac adnewyddu dulliau o weithio i adlewyrchu amgylchiadau sy'n newid; ni wnaed diwygiadau i'r rhwymedigaethau cytundebol gwreiddiol heb bwysu a mesur yn ofalus ac nid ydynt ychwaith yn lleihau'r angen am gynllunio tymor hwy. Mae newidiadau megis y rheiny a nodwyd wedi'u cymeradwyo dim ond ar ôl cyflwyno achos cryf dros wneud hynny. Fodd bynnag, mae sail y penderfyniadau i wneud newidiadau o'r fath yn adlewyrchu i ba raddau y mae'r rheiny sy'n rheoli Sgiliaith a'r broses ariannu yn deall y sector a'r amgylchedd heriol y mae'n gweithredu ynddi.
- iii) Mae llawer o effeithiolrwydd y bartneriaeth yn deillio o **wybodaeth** am faterion, cyfleoedd a rhwystrau wrth ddatblygu darpariaeth ddwyieithog a **rhwydweithiau** (mewn colegau ac ysgolion). Mae gwybodaeth o'r fath yn dod yn raddol, ac mae rhwydweithiau o'r fath yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pherthynas weithio gadarn: nid hawdd fyddai atgynhyrchu neu ail-greu'r pethau hyn mewn cyd-destunau eraill.

- 6.3.8 Mae'r gwerthusiad felly yn argymhell cynnal ac adeiladu ymhellach ar y model hwn, a gaiff ei ystyried yn ddull effeithlon o ddarparu cefnogaeth ganolog ar gyfer Cymru benbaladr.

## 6.4 Cydbwysedd y bartneriaeth

---

- 6.4.1 I ba raddau y mae rôl Sgiliaith a CYDAG yn ategu ei gilydd fel partneriaid a beth yn union yw'r arbenigedd penodol a gynigir gan y naill a'r llall? Mae'n amlwg mai Sgiliaith yw'r partner arweiniol ac yn gyfrifol am gyflwyno mwyafrif helaeth y gweithgareddau a ddiffinnir gan y cytundeb presennol. Wedi dweud hynny, mae CYDAG yn chwarae rôl bwysig ac ategol o ran ehangu'r apêl a marchnata'r gwasanaethau a ddarperir gan Sgiliaith drwy ei ysgolion ymgysylltiol. Mae agenda Llwybrau Dysgu 14-19 yn golygu y bydd cysylltiadau agosach yn datblygu rhwng ysgolion a sefydliadau addysg bellach, gan atgyfnerthu'r achos dros gynrychiolaeth o'r ddau sector yn y bartneriaeth. I'r perwyl hwn, mae'r bartneriaeth yn gweithio'n hynod effeithiol gan fod y ddau barti yn rhannu'r un nod heb ddyblygu ymdrechion nac arwain at wrthdaro buddiannau.

- 6.4.2 Beth am y partneriaid allweddol eraill? Mae Sgiliaith eisoes yn cydweithio'n agos â *fforwm*, partner strategol allweddol wrth gyfleu'r cyfleoedd i wella darpariaeth ddwyieithog. Er bod gan y bartneriaeth hefyd gysylltiadau â Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd a rheolwyr dwyieithrwydd mewn colegau AB, efallai bod cyfleoedd i ffurfioli'r cysylltiadau hyn a defnyddio'r unigolion allweddol hyn i helpu i hyrwyddo ei gwasanaethau a datblygiadau dwyieithog. Bydd cyflwyno'r unedau *laith ar Waith* yn ehangach yn cynnig cyfleoedd i weithio'n strategol gyda phartneriaid eraill yn y sector er mwyn cael yr effaith mwyaf pellgyrhaeddol ag sy'n bosibl.

## 6.5 Effeithiau ychwanegol, anfwriadol y bartneriaeth

---

- 6.5.1 Mae tystiolaeth ansoddol gan rai ysgolion a cholegau a gyfrannodd at y gwerthusiad wedi dangos gwerth ychwanegol ac effaith ehangach y gefnogaeth a ddarperir gan y bartneriaeth. Dywedodd ymarferwyr eu bod wedi lledaenu'r gwersi a'r arfer da a ddysgwyd yn ystod y sesiynau i gydweithwyr yn eu sefydliadau eu hunain. Awgrymwyd bod 'rhaedru' gwybodaeth a chanllawiau fel hyn ymysg grwpiau o ymarferwyr yn gallu helpu i gynyddu'r awydd am ddysgu

dwyieithog ymysg carfan ehangach o staff addysgu ac felly ychwanegu gwerth at y gwasanaethau craidd a ddarperir gan y bartneriaeth.

## 6.6 Argymhellion

---

### ARGYMHELLION

#### Cyffredinol

- i. Dylai APADGOS ddarparu cyllid i alluogi partneriaeth Sgiliaith/CYDAG i barhau ei rôl fel gwasanaeth canolog wrth ddatblygu darpariaeth ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg;
- ii. Dylai cylch gwaith y bartneriaeth adlewyrchu pwysigrwydd rhwydweithiau 14-19 wrth gynllunio darpariaeth ddysgu (ddwyieithog) ac felly ni ddylid ei gyfyngu i gefnogi datblygiadau mewn darpariaeth ôl-16 yn unig;
- iii. Dylai partneriaeth Sgiliaith/CYDAG, mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cynulliad Cymru, ystyried y posibilrwydd o ddatblygu cysylltiadau cryfach â sefydliadau addysg uwch er mwyn:
  - a) datblygu seinfwrdd i roi prawf ar theori ac arferion hyfforddiant dwyieithrwydd presennol;
  - b) cysylltu ag arfer da a ddatblygwyd gan arbenigwr dwyieithrwydd mewn Sefydliadau Addysg Uwch.

#### Canolbwynt y gweithgareddau

- iv. Er ein bod yn cydnabod yr angen i'r rhwymedigaethau a'r gofynion cytundebol ystyried y blaenoriaethau a nodwyd yn Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cynulliad Cymru, ystyriwn y dylai'r canlynol fod wrth wraidd cylch gwaith partneriaeth Sgiliaith/CYDAG:
  - a) Hyfforddiant dwyieithrwydd mewn ysgolion a cholegau er mwyn meithrin sgiliau ymarferwyr;
  - b) Hyrwyddo ymhellach ar yr unedau *laith ar Waith*, gan fynd rhagddynt â chanfyddiadau gwerthusiad y cynllun peilot a gaiff ei gyhoeddi yn ddiweddarach eleni;

- c) Cynnig cefnogaeth strategol i'r Swyddogion Pwnc a benodir maes o law i arwain y gwaith o ddatblygu adnoddau dwyieithog.

#### Hyfforddiant methodoleg dros dridiau

- v. Dylai Sgiliaith sicrhau bod y data monitro a gesglir ar ôl yr hyfforddiant methodoleg yn nodi sut mae ysgolion a cholegau yn clywed am yr hyfforddiant er mwyn llywio ymgyrch farchnata ehangach.
- vi. Dylai Sgiliaith ystyried gwahodd y rheiny sydd wedi cymryd rhan yn yr hyfforddiant i gwrs gloywi ymhen 18 mis i'r sesiynau gwreiddiol.

#### Dysgu seiliedig ar waith (WBL)

- vii. Dylai'r bartneriaeth ystyried lleihau ei ffocws ar ddwyieithrwydd ym maes dysgu seiliedig ar waith fel rhan greiddiol o gylch gwaith Sgiliaith o dan gytundeb newydd. Bydd hyn yn rhyddhau rhywfaint o gapasiti ac adnoddau er mwyn ymateb i gynnydd posibl yn y galw am wasanaethau craidd eraill y mae'r bartneriaeth yn eu cefnogi.
- viii. Fodd bynnag, er mwyn gwneud y defnydd gorau o ganlyniadau gwaith WBL a wnaed yn ystod cyfnod y cytundeb hwn, dylai Sgiliaith fynd ati i ddatblygu a lledaenu canllawiau arfer da ar WBL dwyieithog, yn seiliedig ar gynnydd a wnaed yn ystod cyfnod y cytundeb cyfredol.

#### Cyfraniad at y gwaith o ddatblygu adnoddau dwyieithog

- ix. Mae'n bosibl bod angen i Sgiliaith ganolbwyntio llai ar yr agweddau gweinyddol sy'n gysylltiedig â hwyluso cyfarfodydd y paneli adnodd a chwarae rôl fwy strategol wrth lywio'r gwaith o ddatblygu adnoddau dwyieithog mewn meysydd pwnc allweddol.

#### Cyfraniad at rwydweithiau 14-19

- x. Gan adeiladu ar Argymhelliad 2, uchod, dylai APADGOS ystyried p'un a oes rôl i bartneriaeth Sgiliaith/CYDAG wrth gefnogi rhwydweithiau 14-19 i gynllunio a chyflwyno darpariaeth ddwyieithog neu gyfrwng Cymraeg. Gallai hyn gynnwys hyrwyddo hyfforddiant dwyieithrwydd neu chwilio am ganllawiau gan y bartneriaeth i hwyluso dulliau rhanbarthol o gyflwyno'r un ddarpariaeth.

#### Gweithio i gefnogi datblygiadau a arweinir gan LLUK

- xi. Dylai'r cytundeb diwygiedig wneud darpariaethau i alluogi Sgiliaith i gefnogi prosiectau a gynhelir gan LLUK sy'n canolbwyntio ar ddatblygu dwyieithrwydd yn y sector dysgu gydol oes.

### Partneriaid eraill

- xii. Dylai'r gangen Polisi Dwyieithrwydd o fewn APADGOS, ynghyd â Sgiliaith, ystyried y cwmpas i gydweithio ar sail fwy ffurfiol â Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd a rheolwyr dwyieithrwydd mewn colegau AB er mwyn hyrwyddo datblygiadau pellach mewn dysgu dwyieithog, gan gynnwys unedau *laith ar Waith*.

### Staffio

- xiii. Gan gydweithio â'r gangen Polisi Dwyieithog, dylai Sgiliaith adolygu ei drefniadau staffio mewnol gyda'r nod o sicrhau strwythur cadarn a chynaliadwy nad yw'n or-ddibynol ar sgiliau ac arbenigedd llond llaw o unigolion. Mae'n bosibl y bydd angen penodi aelod o staff llawn-amser ychwanegol i helpu i ddiwallu'r galw cynyddol am wasanaethau hyfforddiant a chefnogaeth y bartneriaeth.